## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

» Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:

- mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
- mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
- mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau

» Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 6 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 6,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 6 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Trafodwch effaith polisïau cartref Pedr Fawr ar Rwsia
- Dadansoddwch pa mor llwyddiannus fu polisi tramor Rwsia dan Pedr Fawr
- Gwerthuswch effeithiolrwydd diwygiadau Ffredrig Fawr ar Brwsia
- Ystyriwch p'un ai gellir disgrifio Ffredri Fawr fel unben goleuedig
- Trafodwch brif nodweddion yr ancien regime yn Ffrainc
- Trafodwch y rhesymau tymor hir a byr am pam gychwynnodd y chwyldro yn Ffrainc yn 1789
- Archwiliwch i ba raddau newidiodd y gydberthynas rhwng y Pwerau Mawrion hyd at 1756
- Trafodwch bwysigrwydd y prif wrthdaro yn Ewrop rhwng 1756 ac 1815.

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol.**

Mae'r cartŵn isod yn sylw cyfoes ar yr ancien regime. Defnyddiwch y cartŵn isod i ddechrau trafodaeth ar pam cychwynnodd y chwyldro yn Ffrainc yn 1789..




Ancien Regime
Dewledd by M.P / Mae'r ddelwedd yma yn y parth cyhoeddus

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Trafodwch y rhesymau dros ddechrau'r Diwygiad yn yr Almaen**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Annhegwch y system drethiant
- Syniadau'r Athronwyr
- Rhwystredigaeth gynyddol ymhlith y bourgeoisie
- Aneffeithiolrwydd Louis XVI
- Atgasedd tuag at Marie Antoinette
- Methiant y broses Ddiwygio
- Y twf dramatig yn y ddyled wladol

© Hawlfraint y Goron 2018 

- Methdaliad y Wladwriaeth
- Galw'r Ystadau Cyffredinol
- Effaith Rhyfel Annibyniaeth America

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**I ba raddau rydych chi'n cytuno mai'r Chwyldro Diplomyddol gafodd y dylanwad mwyaf ar gydberthynas y Pwerau Mawrion yn y cyfnod 1700-1756?**

H1: Cafodd y Chwyldro Diplomyddol effaith arwyddocaol ar gydberthynas y Pwerau Mawrion yn ystod y cyfnod hwn.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw bod Rhyfel Olyniaeth Awstria wedi cael effaith arwyddocaol ar gydberthynas y Pwerau Mawrion.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau y cafodd esgyniad Rwsia – yn enwedig ar ôl ei buddugoliaeth yn Rhyfel Mawr y Gogledd – ddylanwad llawer cryfach ar gydberthynas y Pwerau Mawrion.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**'Gorllewineiddio oedd polisi mwyaf arwyddocaol Pedr Fawr.' Trafodwch.**

**Nodweddion allweddol:**

Yr awydd i ddiweddu arwahanrwydd Rwsia oddi wrth y gorllewin

Cred Pedr bod yn rhaid i Rwsia foderneiddio o ran yr economi a chymdeithas

Sefydlu pŵer Rwsia yn y Baltig ac i gyfeiriad y Môr Du

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Arwahanrwydd Rwsia oddi wrth y gorllewin

Natur annatblygedig cymdeithas ac economi Rwsia cyn gorllewineiddio

Buddion moderneiddio Rwsia

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Y Llysgenhadaeth Fawreddog, 1697-98

Diwygiadau, 1699-1721

Polisi tramor a rhyfel, 1696-1725

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Diwygio'r llywodraeth ganolog

Diwygio'r eglwys Uniongred

Diwygio economi Rwsia

© Hawlfraint y Goron 2018

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 6 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 6. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | Y **prif resymau** dros gychwyn y Chwyldro Ffrengig, 1774-1789 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn natur cydberthynas y Pwerau Mawrion hyd at 1756 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | **Effaith** diwygiadau Ffredric Fawr, 1740-1786 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** Rhyfeloedd y Chwyldro Ffrengig fel gwrthdaro |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- I ba raddau ydych chi'n cytuno bod Pedr Fawr fwyaf **llwyddiannus** wrth ddelio â'r heriau a wynebodd yn ystod ei deyrnasiad, 1696-1725?
- Ai diwygiadau cartref oedd y newid mwyaf arwyddocaol ym Mhrwsia yn ystod teyrnasiad Ffredric Fawr, 1740-1788?
- 'Problemau ariannol yr ancien regime yn ystod y cyfnod 1715-1789 oedd yn bennaf gyfrifol am gychwyn y Chwyldro Ffrengig yn 1789.' Trafodwch.
- 'Y Rhyfel Saith Mlynedd oedd y gwrthdaro mwyaf arwyddocaol rhwng y Pwerau Mawrion yn ystod y cyfnod 1756-1815.' Trafodwch
- I ba raddau deliodd Louis XV yn effeithiol â'r problemau a wynebai yn ystod ei deyrnasiad rhwng 1715 ac 1774?
- I ba raddau gellir dweud mai rhyfel y Glymblaid Gyntaf oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ystod Rhyfeloedd Napoleon a'r Chwyldro Ffrengig, 1793-1815?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Achoswyd y Chwyldro Ffrengig yn bennaf gan wendidau'r ancien regime.' Trafodwch.*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 6. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Y rhesymau dros y pwysau cynyddol dros newid gwleidyddol yn Ffrainc tua 1750-1789
- Y gwahanol ymatebion gan wledydd i'r bygythiad gan Ffrainc, 1792-1815
- Cymhariaeth o arwyddocâd Rhyfel Olyniaeth Awstria a'r Rhyfel Saith Mlynedd
- Maint llwyddiant y diwygiadau yn Rwsia, 1682-1721
- Pwysigrwydd y Chwyldro Diplomyddol mewn materion tramor

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

# Enghraifft batrymol 1

**I ba raddau rydych chi'n cytuno mai diwygiadau crefyddol Pedr Fawr oedd ei lwyddiant pwysicaf yn ystod y cyfnod 1696-1725?**

Cyn cyfnod rheoli Pedr Fawr, roedd Rwsia'n wladwriaeth annatblygedig iawn nad oedd wedi mabwysiadu technolegau uwch y Gorllewin. Un o'r prif ffactorau a achosodd hyn oedd bod yr Eglwys Uniongred yn rheoli bywyd yn Rwsia ac roedd yn gwrthsefyll pob newid. Felly er mwyn cyflawni gorllewineiddio bu'n rhaid i Pedr ddiwygio'r eglwys. Gellid dadlau mai hwn oedd llwyddiant pwysicaf Pedr oherwydd caniataodd iddo fabwysiadu syniadau'r Gorllewin a thrawsnewid Rwsia o fod yn wladwriaeth annatblygedig i bŵer Ewropeaidd. Fodd bynnag, gallai pobl eraill ddadlau mai'r fuddugoliaeth yn Rhyfel Mawr y Gogledd oedd llwyddiant mwyaf a phwysicaf Pedr gan i hyn nodi cwymp Sweden ac ymddangosiad Rwsia fel prif chwaraewr ar lwyfan Ewrop. Gellid dadlau hefyd mai ei lwyddiant pwysicaf mewn gwirionedd oedd creu llynges gan mai canlyniad hyn oedd cryfhau dymuniadau Rwsia i feddiannu darn o arfordir ar y Baltig a phorthladd ar y Môr Du.

Pan ddaeth Pedr yn unig reolwr Rwsia yn 1696, roedd yr Eglwys Uniongred yn rheoli pob agwedd ar fywyd yn Rwsia. Deallodd Pedr yn gyflym bod gan Batriarch Mawr yr eglwys ormod o bŵer ac y gallai rwystro'i ymdrechion i orllewineiddio. Mae hyn yn bwysig i deyrnasiad Pedr gan iddo ganiatáu iddo weithredu'n gyflym a darostwng dylanwad yr Eglwys. Roedd gan Pedr uchelgeisiau i wneud Rwsia yn bŵer blaenllaw yn Ewrop a theimlai na allai gyflawni hynny tra bod yr Eglwys yn gweithredu fel baricêd i'w rwystro rhag bod ble roedd eisiau bod. Felly diosgodd Pedr bŵer y Patriarch Mawr a chreu swydd y Synod Sanctaidd. Roedd hyn yn bwysig iawn i Pedr oherwydd nad oedd gan yr eglwys gymaint o bŵer dros bobl Rwsia ac felly rhoddodd hyn fwy o ddylanwad i Pedr dros beth oedd yn digwydd heb fod yr Eglwys Uniongred yn gwrthwynebu'n barhaus. Ymgododd sefyllfa debyg yn ddiweddarach yn ei deyrnasiad pan oedd ei fab Alexis yn erbyn gorllewineiddio ac felly deliodd Pedr ag ef yn yr un modd.

Fodd bynnag, byddai pobl hefyd yn teimlo mai buddugoliaeth Pedr yn Rhyfel Mawr y Gogledd oedd ei lwyddiant pwysicaf oherwydd roedd hyn yn cynrychioli cam cyntaf Rwsia ar y llwybr i ddod yn bŵer mawr. Mae hyn oherwydd iddo drechu pŵer mawr Sweden er gwaethaf pob disgwyl. Defnyddiodd y llynges oedd newydd ei sefydlu i ddinistrio Sweden ger Penrhyn Hango yn 1714. Roedd hwn yn llwyddiant pwysig iawn yn nheyrnasiad Pedr Fawr oherwydd dangosodd bod cenhadaeth Llysgenhadaeth Fawreddog Pedr wedi gweithio oherwydd arweiniodd at sefydlu llynges a darparu arfau gwell. Ond mae dadl dros honni, pe na fyddai Pedr wedi diwygio'r Eglwys Uniongred, ni fyddai fyth wedi gallu diwygio'r fyddin nac wedi ennill buddugoliaethau mor rymus oherwydd effaith yr Eglwys ar Rwsia fel cenedl ac ni fyddai Pedr wedi cael y gefnogaeth na'r pŵer i gyflawni'r digwyddiadau hyn. Roedd hyn oherwydd bod Rwsia'n grefyddol iawn a byddai'r bobl yn ufuddhau i'r hyn ddywedai'r Eglwys. Roedd y fuddugoliaeth yn Rhyfel Mawr y Gogledd hefyd mor hanfodol oherwydd caniataodd i Pedr feddiannu darn o arfordir y Baltig a phorthladd ar y Môr Du ar ôl gwrthdaro blaenorol yn erbyn y Twrciaid Otomanaidd. Roedd hyn yn llwyddiant pwysig iawn oherwydd gydag arfordir ar y Baltig, gallai Rwsia sefydlu cysylltiadau masnachu

ychwanegol a dilyn breuddwyd Pedr o orllewineiddio.

Cyflwynodd Pedr gyfres o ddiwygiadau cartref hefyd ac roedd y rhain yn llwyddiannau pwysig iawn. Er enghraifft, gwnaeth Pedr welliannau i'r fyddin o ganlyniad i efelychu llwyddiant anferth Sweden yng nghyfnod cynnar y rhyfel pan lwyddodd Sweden i sathru ar Rwsia oherwydd tactegau athrylith Siarl XII yn ymosod mewn storm eira yn Narva yn 1700. Felly ychwanegodd Pedr niferoedd anferth at y fyddin drwy gyflwyno consgripsiwn a hefyd prynodd yr arfau diweddaraf fel mysgedau a bidogau ar ôl dysgu amdanynt yn ei genhadaeth Llysgenhadaeth Fawreddog. Roedd hyn yn llwyddiant pwysig iawn i Pedr gan i hyn ganiatáu i Rwsia gystadlu â Sweden a gellir gweld y prawf yn y ffordd y llwyddodd Rwsia i ddinistrio Sweden yn Poltava yn 1709. Ond gellir dadlau o hyd, heb ddiwygiadau crefyddol Pedr, efallai na fyddai'r buddugoliaethau hyn wedi digwydd oherwydd bod yr eglwys yn erbyn pob math ar foderneiddio a newid.

Un o lwyddiannau mawr eraill Pedr oedd diwygio llywodraeth Rwsia a oedd hefyd yn annatblygedig iawn. Cyflwynodd ddulliau mwy modern a ysbrydolwyd unwaith eto gan y gorllewin, yn benodol Sweden. Roedd hyn yn bwysig dros ben oherwydd rhoddodd ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o reoli pŵer cynyddol Rwsia.

Roedd diwygiadau Pedr Fawr ar grefydd yn ystod y cyfnod 1696-1725 yn bwysig iawn i dwf a datblygiad Rwsia. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y rhain yn llwyddiannau mawr. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cytuno mai'r rhain oedd y pwysicaf. Mae hyn oherwydd bod effeithiau llwyddiant Pedr yn erbyn Sweden yn Rhyfel Mawr y Gogledd yn bwysicach o lawer. Roedd diwygiadau milwrol Pedr wrth ddatblygu byddin Rwsia a chreu llynges yn hanfodol mewn buddugoliaethau fel rhai Poltava a Phenrhyn Hango ac arweiniodd y rhain at Gytundeb Nystadt yn 1721 a roddodd i Rwsia yr arfordir ar y Baltig yr oeddent yn dyheu amdano. Drwy hyn, cafodd Rwsia fynediad i'r gorllewin – un o ddyheadau mwyaf Pedr. Hefyd roedd creu prif ddinas St Petersburg yn hanfodol gan mai hon oedd 'ffenestr Pedr i'r gorllewin' ynghyd â sefydlu canolfan llynges anferth yn Kronstadt.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cbac wjec

# Enghraifft batrymol 2

**'Y Rhyfel Saith Mlynedd oedd y gwrthdaro mwyaf arwyddocaol rhwng y Pwerau Mawrion yn ystod y cyfnod 1756-1815.' Trafodwch.**

Roedd y Rhyfel Saith Mlynedd yn un o'r gwrthdrawiadau mwyaf arwyddocaol rhwng y pwerau mawrion yn ystod y cyfnod 1756-1815 oherwydd hwn oedd y rhyfel ble ymgododd Prwsia fel pŵer mawr yn Ewrop. Cychwynnodd y Rhyfel Saith Mlynedd oherwydd y gynghrair a sefydlwyd yn ystod y chwyldro diplomyddol ble arwyddodd Prwsia a Phrydain gonfensiwn San Steffan i ddod yn gynghreiriaid. Pan ddigwyddodd hyn, cythruddwyd Louis XVI o Ffrainc ac fe'i gorfodwyd i arwyddo Cytundeb Versailles gydag Awstria. Felly byddai hyn yn golygu y byddai Ffrainc ac Awstria yn dod yn gynghreiriaid ar y cyd â Rwsia mewn clymblaid gwrth-Brwsiaidd. Roedd llawer o frwydrau allweddol yn y Rhyfel Saith Mlynedd gyda'r prif frwydrau yn Rossbach a Leuthen. Yn Rossbach, trechodd 25,000 o Brwsiaid 50,000 o filwyr Ffrengig, a lladdwyd dim ond 500 o Brwsiaid tra lladdwyd 10,000 o'r Ffrancod. Roedd Leuthen hefyd yn fuddugoliaeth fawr arall i Brwsia gan fod 30,000 o Brwsiaid wedi trechu 80,000 o Awstriaid yn llethol. Fodd bynnag trechwyd Prwsia weithiau hefyd, er enghraifft ym mrwydr Kunersdorf. Mae hyn yn profi mai'r Rhyfel Saith Mlynedd oedd un o'r gwrthdrawiadau mwyaf arwyddocaol rhwng y pwerau mawrion oherwydd cafodd tri o bwerau mawrion Ewrop eu trechu'n llethol sawl gwaith gan wlad fechan Prwsia ac felly, oherwydd hyn, ymgododd Prwsia fel pŵer mawr yn Ewrop gan godi cywilydd ar y pwerau mawrion eraill. Dangosodd hefyd bod y pwerau mawrion yn methu â gweithredu fel tîm. Ni wnaethant ymosod gyda'i gilydd ond yn hytrach ymosod fesul un ar Brwsia – roedd hyn yn golygu bod rhaid i Brwsia boeni am ymladd un wlad ar y tro yn unig gan na wnaeth y tri phŵer fyth ymosod gyda'i gilydd. Ar y cyd â'r cymorth gan Brydain a'i byddin ddisgybledig, ynghyd â thactegau'r arweinydd Ffredric Fawr, rhoddodd Prwsia ysgytwad i bawb drwy drechu'r pwerau mawrion yn llethol gan wneud y Saith Mlynedd yn un o'r gwrthdrawiadau mwyaf arwyddocaol rhwng y pwerau mawrion yn ystod y cyfnod 1756-1815. Felly rwy'n cytuno â'r syniad mai'r Rhyfel Saith Mlynedd oedd y gwrthdaro mwyaf arwyddocaol rhwng pwerau mawrion gan ei fod yn dangos sut gall gwlad fechan fel Prwsia ymgodi fel pŵer mawr oherwydd byddin ddisgybledig, dan arweinyddiaeth dda, gan roi ysgytwad i'r tri phŵer mawr mwyaf grymus ar yr adeg honno a pheri iddynt dynnu'n ôl o'r rhyfel fesul un nes iddo ddod i ben.

© Hawlfraint y Goron 2018 